# Gwasanaethau Anabledd, Prifysgol Bangor

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Polisi a Gweithdrefn Cwynion - Cymorth nad yw'n feddygol (NMH)

Os nad ydych yn hapus â rhywbeth, rhowch wybod i ni oherwydd yn aml gellir datrys materion yn anffurfiol os cânt eu codi mewn ffordd amserol.

Rydym yn gobeithio na chewch achos i gwyno ynglŷn â'r ddarpariaeth Cymorth nad yw'n Feddygol, ond, os bydd gennych gwyn, byddwn yn gwneud ein gorau i ymdrin â'ch cwyn yn ddi-oed, mewn ffordd broffesiynol sydd ddim yn creu gwrthdaro. Byddwn yn sicrhau eich hawliau i breifatrwydd a chyfrinachedd wrth ddelio â'ch cwyn.

Mae'r Gwasanaethau Anabledd yn dod o dan Drefn Gwyno Myfyrwyr Prifysgol Bangor, https://www.bangor.ac.uk/regulations/procs/proc01.php.cy ac mae gennych yr hawl i ddefnyddio'r drefn honno ar unrhyw adeg.

Os ydych yn anfodlon â'r ddarpariaeth Cymorth nad yw'n Feddygol:

- Cysylltwch â'r aelod staff sy'n uniongyrchol gyfrifol am y sefyllfa. Os ydych yn ansicr o enw'r unigolyn hwnnw, anfonwch e-bost at gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

- eglurwch eich cwyn a gofynnwch am ateb penodol i'ch cwyn. Dylech ddisgwyl cael ateb cyn pen pum diwrnod gwaith.

- Os nad yw hyn yn datrys y broblem yn foddhaol, gallwch gysylltu â naill ai:

  - Rheolwr y Gwasanaeth Dyslecsia: pss204@bangor.ac.uk
  - Pennaeth y Gwasanaethau Anabledd: c.donaldson.hughes@bangor.ac.uk neu
  - Cyfarwyddwr Profiadau Myfyrwyr: m.lorenzini@bangor.ac.uk.

  Dylech ddisgwyl cael ateb cyn pen pum diwrnod gwaith.

- Fel rheol, rhaid cadw at y terfynau amser sydd wedi'u nodi. Os bydd oedi, rhoddir gwybod i chi trwy lythyr, gan gynnwys amcangyfrif o'r amser fydd ei angen i ystyried y gwyn.

- Os nad ydych yn fodlon gyda'r ateb na'r datrysiad, cewch gyflwyno cwyn ffurfiol yn unol â Threfn Gwyno Myfyrwyr y Brifysgol.

Carolyn Donaldson-Hughes
21 Ebrill 2016